Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: **02920 490582**
E-bost: **aluntudur@btinternet.com**

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
Ffôn: **01766 513138**
E-bost: **IwanLlew@aol.com**

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: **01267 232577 / 0781 751 9039**
E-bost: **alunlenny@hotmail.co.uk**

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: **01792 795888**
E-bost: **undeb@annibynwyr.org**

Dalier Sylw!
Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

O Folly Farm i Gofeb Waldo - dau drip gwahanol iawn!

Fe aeth aelodau gofalaeth Bethel Llanddewi, Tabernacl Hendy-gwyn a Trinity Llanboidy ar ddau drip gwahanol iawn yr hâf yma. Gyda'r tywydd yn wael aeth trip Ysgol Sul y Tabernacl i Folly Farm ac nid i'r traeth. Daeth dros 20 o blant, rhieni ac athrawon at ei gilydd a chafwyd diwrnod da. Yn ogystal â chwarae yn y lle dan do aethpwyd i weld yr anifeiliaid rhwng y cawodydd. A rhaid, wrth gwrs, oedd mynd i'r ffair cyn mynd adref!

D'oedd y tywydd ddim yn edrych yn addawol ychwaith ar gyfer trip blynyddol yr ofalaeth. Bu niwl dros dde orllewin Cymru am dridiau cyn hynny, ond fe gododd mewn pryd a chafwyd diwrnod i'w gofio. Dechrau gydag oedfa yn y Tabernacl Maenclochog dan ofal Ken Thomas ac yna teithio Bro Waldo Williams. Bu Hefin Wyn yn arwain y daith yn feistrolgar ac yn ein dysgu am yr ardal a'i hanes. Gorffennwyd trwy ddychwelyd i ardal Maenclochog am bryd blasus yn Nhafarn Sinc.

Y Fforddd

Cyfforddd Llandudno
15 Medi am 7.00

Bethania, Tymbl
26 Medi am 7.00

Mae cynllun newydd Y Ffordd yn adnodd cyffrous, defnyddiol, ymarferol a hwyliog i helpu eich eglwys chi ar y daith unigryw gyda Duw.

Bydd yn para am bedair blynedd, gyda thema gwahanol bob blwyddyn:

- Ffyrdd drwy'r Beibl
- Y Ffordd y daethom
- Tystiolaeth Pobl y Ffordd
- Gofal Pobl y Ffordd

Dewch i wrando, holi a dysgu sut mae dilyn Y Ffordd.

Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Wasg Morgannwg, 27 Ystad Ddiwyd. Mynachlog Nedd, Castell-nedd, SA10 7DR. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.

PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 149 | Rhif 35 | Awst 25, 2016 | 50c.

ADERYN ANGAU'N TRENGI YN ABERPORTH

Bu protestio ers tro yn erbyn datblygu a phrofi 'adar angau' (awyrennau di-beilot milwrol – neu drônsiau) yn Aberporth a Llanbedr. A nawr, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cyhoeddi bod drôn *Watchkeeper*, sy'n costio dros £1m. yr un, wedi chwalu ar ôl colli rheolaeth wrth ddisgyn ar y maes glanio yn Aberporth dwy flynedd yn ôl. Ers hynny, fe ddisgynodd un arall mewn ardal ymarfer yn Lloegr.

Dywed ymgyrchwyr heddwch fod hyn yn cadarnhau eu hamheuon am ddiogelwch y drôns.

"Mae'n amlwg fod y dechnoleg yn amherffaith," meddai'r Parchg Guto Prys ap Gwynfor, Cadeirydd Rhwydwaith Heddwch Undeb yr Annibynwyr. "Mae'r drôns yma'n cael hedfan dros ardal 500 milltir sgwâr rhwng Aberporth a Llanymddyfri. Yn naturiol, mae'r fath ddigwyddiad yn codi pryderon ynglŷn â diogelwch pobl.

Technoleg Ddiffygiol

"Mae drôns arfog yn cael eu clodfori am eu gallu anffaeledig honedig i dargedu'r gelyn lle bynnag y mae. Ond gwyddom fod nifer fawr o bobl ddiniwed wedi cael eu lladd gan yr adar angau. Ar wahan i'r defnydd anfoesol o'r fath arf, mae'n dangos fod y dechnoleg yn ddiffygiol – yma ar y maes ymarfer, yn ogystal ag ar faes y gad."

Gorwario Difrifol

Awyren di-beilot cafodd ei ddatblygu ar y cyd gan gwmni Iddewig Elbit a Thales UK yw'r Watchkeeper. Yn 2005, fe neilltuwyd £800 miliwn gan Lywodraeth Prydain ar gyfer cynhyrchu 54 o'r awyrennau, ond erbyn hyn mae'r gost yn £1.2 biliwn, a'r cynllun tair blynedd ar ei hôl hi.

"Er gwaetha'r gorwario difrifol, mae'n amlwg fod problemau wedi bod gyda'r dechnoleg," meddai'r Parchg Guro Prys ap Gwynfor, sydd hefyd yn Llywydd Cymdeithas y Cymod. "Mae'n ymddangos nad oes pen draw ar wario ar arfau rhyfel tra bod cymaint o angen mewn meysydd eraill."

Mae Cymdeithas y Cymod mewn cyswllt parhaol gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar y mater yma. Bu gwrthwynebu'r defnydd o drôns ar dir ac awyr Cymru hefyd yn rhan o bolisi Undeb yr Annibynwyr ers tua phum mlynedd. Mae un peth yn siŵr, fe fydd ymgyrchwyr heddwch yn dal i gadw llygad barcud ar yr adar angau!

YMDDIRIEDOLAETH PANTYFEDWEN: Ffarwelio â Richard Morgan

Daeth cyfnod pwysig i ben yn hanes Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen, gydag ymddeoliad Richard Morgan fel Ysgrifennydd Gweithredol, wedi cyfnod o 34 o flynyddoedd. Bu ei gyfraniad yn gwbl allweddol i waith yr Ymddiriedolaeth, dros gyfnod maith a thrwy nifer o newidiadau pellgyrhaeddol. Yn y llun, gwelir Gwerfyl Pierce Jones, Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth, a'r Athro Derec Llwyd Morgan, Cadeirydd y Pwyllgor Gweithredol, yn cyflwyno Richard gyda darlun pwythog gan Cefyn Burgess o gapel y Gwynfryn, Rhydaman, fel arwydd o werthfawrogiad yr Ymddiriedolwyr o'i gyfraniad arbennig, ac i ddymuno'n dda iddo ar ei ymddeoliad.

Flwyddyn yn ôl, bu Angharad Tomos, Sian ap Gwynfor, Awel Irene ac Anna Jên Evans gerbron Llys Ynadon Caernarfon am dorri i mewn i faes awyr milwrol Llanbedr a pheintio "Dim Adar Angau" mewn llythrennau anferth ar y llain glanio. Er iddynt gael rhyddhad amodol, cawsant orchymyn i dalu £565 yr un o iawndal a chostau.

Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Llanuwchllyn, 2016

Dyma'r drydedd mewn cyfres o erthyglau fydd yn ymddangos yn ystod mis Awst sydd yn grynodeb o adroddiad Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr sef y Parchg Dr Geraint Tudur.

Gyda'r Beibl mewn un llaw, beth felly yw'r adnoddau eraill sydd gennym i'w defnyddio yn ein gwaith, i hyrwyddo ymdrechion yr Undeb a gwaith y Deyrnas? Gadewch i ni ddechrau gyda'r syml. I gadw cysylltiad â'n gilydd mae gennym *Y Tyst*, wythnosolyn defnyddiol y mae tîm bychan o bobl wedi bod yn ei baratoi yn gyson a thawel am flwyddyn arall.

At *Y Tyst* a'r *Pedair Tudalen*, mae gennym gyhoeddiadau eraill. Mae'r *Blwyddiadur* yn llawn o wybodaeth am yr Undeb, y cyfundebau, yr eglwysi, y gweinidogion a'r arweinyddion a llawer mwy, ac yn absenoldeb Alaw Rees, y mae'n awr yn cael ei baratoi gan Ann Williams. Mae *Dyma'r Undeb,* oedd hefyd yn cael ei baratoi gan Alaw, yn cael ei baratoi gan Alun Lenny ac unwaith eto, ar eich rhan, hoffwn fynegi ein gwerthfawrogiad diffuant o waith y bobl hyn. Mae'r *Bwletin* misol yr oeddem ar un amser yn ei gyhoeddi bellach wedi dod i ben; cafodd ei ddisodli gan ein gwefan, ein cyfrif *Twitter* a'n cyfrif *Facebook*. Rhodri Darcy sy'n bennaf cyfrifol am y rhain, ac er gwybodaeth i chwi, mae dros hanner cant o glipiau wedi ymddangos erbyn hyn ar sgrin *Fideo'r Foment* ar y wefan, sy'n dipyn o gamp i ni sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae enwi rhai aelodau o staff yr Undeb yn f'arwain at gyfeirio atynt i gyd, oherwydd mae i bob un ei le pwysig yn ein cynlluniau a'n strategaeth. Erbyn hyn, yr ydym yn gallu son am *dîm* o bobl, Ysgrifennydd Gweinyddol, Cynorthwyydd Gweinyddol, Swyddog Hyrwyddo a Chyfathrebu, dau Swyddog Cynnal ac Adnoddau (un yn y gogledd a'r llall yn y de), Cynorthwyydd i'r Ysgrifennydd Cyffredinol, a'r Ysgrifennydd Cyffredinol ei hun. At hynny mae'n rhaid ychwanegu ein Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Wasg, sydd, i fod yn fanwl gywir, heb fod ar staff yr Undeb ond eto'n cael ei gyflogi ganddo.

Rwyf wedi cyfeirio at yr eglwysi, y gweinidogion a'r arweinyddion. Dyma bobl eraill sy'n ymroi i'r gwaith, ac o'n plaid ac yn gefn i ni. O fewn yr eglwysi mae swyddogion ac unigolion sydd wedi rhoi oes o wasanaeth er mwyn cynnal y dystiolaeth Gristnogol yn eu hardal. I rai y mae wedi bod yn wirioneddol galed, ond y maent wedi dal ati, ac mae angen i ni ddiolch iddynt yn ddiffuant a chydnabod ei bod yn anodd dychmygu ble y byddem oni bai amdanynt. Ac mae'r un peth yn wir am y gweinidogion a'r arweinyddion. Pan fydd pobl y dyfodol yn edrych yn ôl ar y cyfnod hwn, byddant yn sylweddoli cymaint o anawsterau sydd wedi bod ar draws ein llwybrau, a chymaint o ymdrech y mae wedi ei olygu i gynnal pethau yn eu blaen. Mae'n dyled, felly, yn fawr i'r rhai sy'n dyfalbarhau ac yn parhau i gynnal y dystiolaeth, a braint a phleser i ni fel Undeb yw cael gwneud rhywbeth bach fel trefnu Dyddiau ar gyfer y Gweinidogion, a noddi eu Hysgol Haf, nid yn unig er mwyn darparu cyfleoedd iddynt gael dod at ei gilydd a chael ychydig o hyfforddiant mewn swydd, ond hefyd er mwyn i ni fynegi ein diolch iddynt.

At yr holl bobl hyn, rhaid yw ychwanegu ein gwirfoddolwyr, pobl sydd *wedi* rhoi, ac *yn* rhoi, o'u hamser a'u hegni i'n cynorthwyo ac i wneud yr hyn a allant dros achos Iesu Grist yn ein dyddiau ni. Mae'n dyled iddynt hwythau'n anfesuradwy ac y maent wedi eu gwasgaru ar hyd a lled y wlad.

Dros y blynyddoedd diwethaf bu'n bleser o'r mwyaf i mi gael cydweithio gydag Eifion Griffiths, ein Trysorydd. Bu'n fawr ei ofal dros adnoddau ariannol yr Undeb ac yn ddiflino yn ei ymdrechion i ddiwygio'r amodau sy'n rheoli'n defnydd ohonynt. Bu'n arwain yn ofalus ein hymdrech i berswadio'r Comisiwn Elusennau i weld ffolineb ein sefyllfa bresennol, ond ochr yn ochr â hynny, yr oedd yn rhannu â ni yr awydd i weld yr Undeb yn symud ymlaen ac yn datblygu er mwyn iddo fedru gwasanaeth'r eglwysi hyd yn oed yn well. Hoffwn ddiolch iddo am hynny, am ei gymwynasau di-rif â ni ac am y cwbl y mae wedi ei wneud, a dymuno'n dda iddo yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Yr ail swyddog sy'n cyrraedd diwedd ei dymor eleni yw ein Llywydd, un arall yr wyf yn teimlo'n hynod ddyledus iddo am ei gyngor, ei arweiniad a'i ofal dros y ddwy flynedd diwethaf. Daeth i'r gadair, os cofiwch, yn fuan wedi triniaeth lawfeddygol pur sylweddol, a thraddododd ei anerchiad ar *Iesu'r Cymod* yn y Tabernacl, Penybont-ar-Ogwr, lle bu ei frawd, Wynn, yn weinidog. O'r diwrnod hwnnw, bu iddo ymroi i'w ddyletswyddau, a thrwy ei gyfraniad a'i fynych deithiau ac ymweliadau, mae wedi cyflawni gwasanaeth clodwiw i'r Undeb. O'n rhan ni fel staff, mae wedi bod yn fawr ei ofal drosom ac yn werthfawrogol o'n hymdrechion. Am hynny, yr wyf fi a'm cydweithwyr yn diolch iddo'n ddiffuant ac yn dymuno bendith Duw arno, a hynny yn y gobaith y caiff nerth ac iechyd i fwynhau eto ddyddiau hir o bysgota tawel ar lan afonydd a llynnoedd Cymru.

Meryl James a Glyn Williams sy'n dod yn awr i lenwi swyddi'r Trysorydd a'r Llywydd, a phrin fod angen i mi ddweud fy mod yn edrych ymlaen yn fawr at gael gweithio â hwythau fel gyda'u rhagflaenwyr.

PERERINDOD I FETHESDA'R FRO

Ar Ddydd Sul, 19fed Mehefin bu aelodau Capel Penybont, Horeb a Threfgarn Owen, ynghyd â nifer o ffrindiau ar bererindod i Gapel Bethesda'r Fro, Bro Morgannwg. Sefydlwyd y capel yn 1807 gan yr emynydd adnabyddus Thomas William (1781-1844). Mae'r capel mewn ardal wledig gerllaw RAF St Athan, lle pwysig yng nghyfnod yr Ail Ryfel Byd.

Cawsom ein croesawu gyda chyflwyniad gan Mrs Joan Davies, Ysgrifennyddes Bethesda'r Fro, lle d'oes ond 18 o aelod erbyn hyn. Amlinellodd Mrs Davies hanes diddorol y capel o'r dechreuad, gan gyfeirio at y bobl fu'n ddylanwadol i sefydlu a pharhau'r achos ar y safle. Soniodd hefyd am ddatblygiadau ac anghenion ymarferol fel goleuni, cyflenwad dŵr, angen cyfleusterau, ayb. Sefydlwyd Bethesda'r Fro ar ôl rhwyg yn eglwys Aberthin pan ddiswyddwyd y pregethwr enwog y Parchg Peter Williams o Gaerfyrddin, am resymau safbwyntiau diwinyddol. Ar ôl blynyddoedd o anghytundeb dwfn, gadawodd Thomas William a John Williams gapel Aberthin i ffurfio eglwys eu hunain.

Annibyniaeth Barn

Ordeiniwyd Thomas William yn weinidog ac emynydd arall, John Williams, yn Ysgrifennydd yr eglwys newydd yn 1798. Yn 1806 cafwyd darn o dir ym Mhlwyf Llanilltud Fawr a chodi capel, Bethesda'r Fro arno. Cofrestrwyd y 'tŷ cyfarfod' newydd yn 1807. Bu Thomas William yn weinidog yno am dros 30 mlynedd, a hynny'n ddidâl gan nad oedd yn ddibynnol ar gyflog o'r capel, oherwydd ei ddiddordebau amaethyddol. Galluogai hyn iddo fod yn hollol annibynnol i fynegi barn a syniadau, fel bod angen. Cyfansoddodd nifer o emynau, gan gynnwys ''Aderyn colomen pe cawn,'' Llais y Durtur yn y Wlad'' (1812), ''Perl mewn Adfyd'' (1814) a ''Gweddi'r Pechadur.''

parhad ar dudalen 7

Barn Annibynnol

Angladd Digrefydd neu Gynhebrwng Cristnogol?

Dros y misoedd diwethaf, rwy wedi bod mewn dau angladd lle'r oedd gofyn i ni wisgo dillad lliwgar. "Wear bright clothes" oedd y cais yn un ohonynt a "Colourful dress code" yn y llall. Fe wnes i gydymffurfio yn y naill achos a'r llall a dewis fy nillad mwyaf llachar, yn falch o gael ymuno â'r teulu i ddathlu bywyd y cymeriad lliwgar yr oeddem yn ei gladdu. Ond och, o gyrraedd y maes parcio, daeth yn amlwg yn y ddau achos nad oedd pobl eraill wedi dehongli'r cyfarwyddiadau mor llythrennol â mi – roedd ambell fflach o las neu binc neu borffor yma a thraw ond, ar y cyfan, syber iawn oedd gwisgoedd y galarwyr – hyd yn oed y teulu agosaf a oedd wedi gwneud y cais. Dwi ddim yn siŵr pam roedd hyn – ai rhyw barchusrwydd yn ymylu ar ofergoel? Ro'n i'n teimlo fel clown! Wna i ddim o'r un peth eto ar hast!

Ffeirad 'rhy grefyddol'!

Mewn eglwysi roedd y ddau angladd uchod er nad oedd gan y rhai a fu farw gysylltiad â'r eglwysi hynny ers blynyddoedd, os erioed. Roedd y ddau deulu wedi trefnu cynnwys y cyfarfodydd – yn deyrngedau, barddoniaeth a chaneuon – cyn hyd yn oed siarad â'r ficer ac yn wir, dywedodd un weddw ei bod yn gobeithio na fyddai'r ficer yn "rhy grefyddol".

Mater Sensitif

Mae crefyddoldeb angladdau yn fater sensitif iawn, wrth gwrs. Mewn erthygl yn y golofn hon ar 12 Mai eleni dywedodd Geraint Rees fod ffrindiau iddo wedi cael "profiad anghynnes iawn" o fod mewn priodas/angladdau lle dywedai fod y pregethwyr yn gweld y gynulleidfa "fel maes cenhadol i werthu dogma Gristnogol iddyn nhw". Y peth cyntaf a'm trawodd wrth ddarllen hyn fod cwyno am elfen Gristnogol mewn angladd mewn capel fel mynd i sŵ a chwyno bod anifeiliaid yno. Ond dydi hi ddim mor syml â hynny, wrth gwrs.

Neges Hollbwysig

Mae'n ddealladwy fod ficer neu weinidog sy'n credu bod ganddo/ganddi neges hollbwysig i'w chyhoeddi, beth bynnag ei safbwynt diwinyddol, yn gweld angladdau yn gyfle i gyhoeddi'r neges honno wrth gynulleidfa sydd dipyn yn fwy niferus na'r gynulleidfa arferol o Sul i Sul. Ond mae angen bod yn sensitif i sefyllfa ac anghenion y teulu a'r gynulleidfa neu fe all yr ymdrech fod yn wrthgynhyrchiol. Dwy feirniadaeth a glywais i o weinidogion mewn angladdau yw "O'dd y diawl yn treio'n hachub ni!" a "Chawson ni ddim byd ond politics o'r dechrau i'r diwedd!" Mae mor bwysig peidio â chymryd mantais o bobl yn eu gwendid.

Angladd – amser i Efengylu?

Wrth Gwglo "evangelising in funerals" mae'r gwefannau sy'n rhoi cyngor i weinidogion yn amrywio o un sy'n rhoi rhestr o awgrymiadau'n cynnwys:

- "Go quickly but thoroughly through each of the Ten Commandments.
- Warn briefly about sin, death, judgment, and eternity.
- Appeal to the audience to repent today"

i un arall sy'n dweud "Evangelising has a time and funerals are not it".

Tybed faint o bobl sy'n sylweddoli nad oes rhaid cael angladd Cristnogol? Er mai rhyw 10% o'r boblogaeth sy'n mynd i gapel neu eglwys, tua 10% o angladdau sy'n rhai digrefydd yn ôl Co-op Funeralcare. Tybed pam y mae hyn – traddodiad, sentiment, ofergoel, anwybodaeth? Ydi trefnwyr angladdau yn rhoi'r dewis i deuluoedd? Mae'r syniad o angladd digrefydd yn ddierth ond mae'n siŵr y byddai'n apelio at lawer o'i wneud yn dda. Gallwch drefnu'r cyfarfod eich hunan neu ofyn am help "gweinydd" (celebrant) gan Humanist Ceremonies ond mae'r enwau sydd ar y wefan yn awgrymu mai ychydig o'r rhain sy'n siarad Cymraeg.

Ffarwelio'n Urddasol

Dywedir bod angladd digrefydd yn gyfle i ffarwelio'n urddasol â'r sawl a fu farw ac i ddathlu eu bywyd. Mae'n cydnabod tristwch ingol colli rhywun annwyl ond hefyd yn dathlu yr hyn oedd, yr hyn a wnaeth a'r hyn a adawodd ar ei ôl. Rwy'n tybio y gallai angladdau fel hyn dyfu mewn poblogrwydd yn fuan.

Angladd Digrefydd

Tybed beth fyddai ymateb gweinidogion i gynnydd mewn angladdau digrefydd? Mae'n siŵr y byddai llawer yn teimlo'u bod yn colli cyfle i ddod i gysylltiad ag aelodau o'u cymuned ar adeg pan fo arnyn nhw angen cymorth ond gallai hefyd leihau'r pwysau o gymryd angladdau di-ri lle nad oes ar y teuluoedd wir eisiau angladd Cristnogol. Rwy'n meddwl efallai y byddai'r teuluoedd y soniais amdanynt uchod wedi bod yn fwy cysurus mewn angladd digrefydd – ac efallai y byddai mwy o'r gynulleidfa wedi ufuddhau i'r cais i wisgo dillad lliwgar hefyd!

Sian Roberts

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

PERERINDOD I FETHESDA'R FRO - *parhad o dudalen 2*

Canu Emynau Thomas William

Erbyn 1969 roedd perygl y byddai'r capel yn syrthio'n adfail, ond atgyweirwyd ac addurnwyd yr adeilad gan aelodau o'r Orsaf Awyrlu gyfagos, gyda chyfraniadau gan nifer o sefydliadau ac unigolion hael. Ar ôl cyflwyniad croesawgar Mrs Joan Davies, yn y capel, cymerodd ein gweinidog y Parch Geoffrey Eynon at yr awenau trwy gynnal oedfa. Darllenwyd rhan o'r Ysgrythur, Salm 55, adnodau 1-7, gan Mr Brian Jones yn Gymraeg a Mrs Alex Thorpe, yn Saesneg. Seiliodd y Parchg Geoffrey Eynon ei Bregeth ar adnodau'r Salm a ddarllenwyd ac oedd yn berthnasol gyda emyn Thomas William, ''Adenydd colomen pe cawn''. Canwyd tri o emynau Thomas William yn yr oedfa gyda brwdfrydedd ac argyhoeddiad, dan gyfeiliant Mrs Heulwen Warlow.

Profiad y Pererinion

Yn dilyn ysbrydoliaeth yr oedfa yng Nghapel Bethesda'r Fro, aethom ymlaen i Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Er gwaethaf y tywydd gwlyb erbyn hyn, ni ymharwyd ar fwynhad a phrofiad y pererindod pleserus. Ar y ffordd adref galwyd yng ''Ngwesty'r Bridge'', Llangennech i goroni'r bererindod, lle cafwyd gwledd o fwyd, gyda chanu ''Pen Blwydd Hapus'', i ddau aelod ffyddlon Capel Penybont. Diolchodd Mr Brian Jones, Ysgrifennydd Penybont, i'r Gweinidog am yr holl drefniadau hwylus. Edrychwn ymlaen yn awr at y flwyddyn nesaf, pan fyddwn yn teithio i Soar y Mynydd ar Fai 21 i wrando ar ein Gweinidog yn pregethu.

Gwynedd a Myra James